

YR ARLUNYDD cyntaf i ddarlunio'r Cymry oedd J C Ibbetson. Teithiodd ef drwy'r wlad ar ddiwedd yr 18g. Mae casgliad o'i waith yn yr Amgueddfa Genedlaethol. O'i flaen ef, golygfeydd eang a llecynnau hardd, hawdd eu rhamanteiddio a ddiddorai'r artist a chyn hynny, adeiladau megis cestyll ac abatai. Arlunwyr proffesiynol oedd y rhain a gâi eu talu gan noddwyr cefnog, fel y cyflogid Moses Griffith o Lŷn gan Thomas Pennant.

Teithiodd Ibbetson trwy Forgannwg, Meirionnydd, Trefaldwyn, Dinbych a Chaerfyrddin. Ystyrir iddo ddarlunio yr hyn a welai yn hytrach na'r hyn a ddymunai ei weld. Gwelodd ferched yn golchi dillad y tu allan i'w tai. Dyna fyddai'n digwydd yn y canoloesoedd gan fod y tai yn rhy dywyll i ganiatau iddynt wneud unrhyw waith bron dan do.

Mae'n lled debyg fod yr artist wedi dweud wrth y bobl ble i sefyll er mwyn cyfansoddiad y llun ond nid beth i'w wneud. Rhamanteiddiodd y sefyllfa ond dyna oedd arddull y cyfnod. Mae fel petai'n trafod y bobl gydag anwylder a pharch. Mae Ffransis G Payne wedi defnyddio lluniau Ibbetson yn ei ddadansoddiad o'r wisg Gymreig.

Yr oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod chwyldroadol. Wedi gwaith gorchestol gan ddaeargwyr, peirianwyr a cheibwyr codwyd 5,000 o filltiroedd o reilffyrdd erbyn 1848. Golygai hyn nad oedd yn rhaid i'r Fictoriaid deithio dramor rhagor er mwyn cael blas ar wlad newydd.

Yr oedd teithio i Gymru yn ddigon o anturiaeth. Yr oedd teithwyr y ganrif flaenorol trwy sôn am harddwch naturiol y wlad a disgrifio'r Cymry fel pobl gyntefig a siaradai iaith ryfedd wedi rhoi archwaeth iddynt weld drostynt eu hunain. Dyma pryd y dechreuodd twristiaid ddarganfod Cymru o ddifrif.

* * *

OS OEDDYN nhw am ddod, yr oedd yn rhaid i'r Cymry baratoi ar eu cyfer. Un a achubodd fantais ar hynny oedd gŵr o sir Frycheiniog o'r enw T J Llewelyn Prichard: ef a ddisgrifiodd Aberystwyth fel "the Naples of Wales" a Llandudno fel "the Queen of Welsh watering places." Mae'n mynd dros ben llestri yn ei awydd i ddenu'r Saeson.

Ef oedd y cyntaf i ledur stori fod dillad y Cymry'n amrywio o sir i sir gan roi'r argraff fod rhyw fath o

MARY WILIAM yn olrhain Y Chwedl Gymreig



ffurfwisg gan bob sir. Bu'n actor yn Llundain yn nauddegau'r ganrif a diau iddo deimlo fod hyn yn rhoi iddo'r ddawn o adnabod anghenion twristiaid.

Yr enwocaf o wlatgarwyr y cyfnod oedd Arglwyddes Llanofor. Ei chyfres hi o ddyfiriwiau ynghyd â chystadlaethau yn ei heisteddfodau a sefydlodd y wisg Gymreig. Hi alwodd y betgwn resog neu sgwarog yn "National checks or stripes", ond yn y rhestr testunau Saesneg yn unig y digwydd y gair "national".

Ei phrif ddiddordeb oedd Cymreigio'r Cymry eu hunain, o ran iaith a meddylfryd a hefyd o ran gwisg. Yr oedd y pwyslais hwn ar genedligrwydd ac arwahanrwydd yn hwb i'r farchnad dwristiaid. Yn 1836, nodar Arglwyddes y golled a gâi arlunwyr a theithwyr pe dinistrid gwisgoedd Cymreig.

* * *

YNG NGHANOL y ganrif, cyhoeddodd argraffwyr megis Hugh Humphreys, J C Rowland ac R Griffiths yn y gogledd, a CS Allen o Ddinbych-y-pysgod yn y de, gyfresi o argraffiadau sy'n dal i gael eu hatgynhyrchu heddiw. Golygai'r datblygiadau gwyddonol y gellid cynhyrchu ffotograffau yr un mor rwydd ag ysgythriadau. Defnyddid y ffotograffau i wneud cardiau post i ddiwallu anghenion y twristiaid, ac yr oedd pobl yn gwneud casgliadau ohonynt.

Y tynnwr lluniau, nid yr amgylchiadau, oedd yn rheoli'r llun. Yr elfen hanfodol ymhob llun oedd pais a betgwn a het gopa dal, a'r gwragedd hynaf, hyllaf y gellid cael gafael ynddynt. Hyn eto er mwyn cadarnhau syniad y Saeson o Gymry fel pobl ddieithr a rhyfedd.

Gwragedd yn unig a ddarlunid ganddynt ac fe welir yr un wynebaw mewn llawer llun. Ymddengys y gallai'r cynhyrchwyr lluniau alw ar wasanaeth rhai gwragedd dro ar ôl tro.

Wrth gynhyrchu llwyfannau ar gyfer yr actorion hyn, yr oedd yn hanfodol defnyddio'r elfennau mwyaf hen ffasiwn yn y bywyd Gymreig. Awgrymai'r droell fod gwragedd Cymru yn dal i nyddu'n gyffredin. Ond y syniad a gafodd yr argraff fwyaf ar y farchnad dwristiaeth oedd y syniad ein bod yn genedl o yfwyr te.

Erbyn hyn, mae'r darlun wedi'i serio ar ddychymyg pob un ohonom. Gosodid dwy hen wraig y tu ôl i ford gron a lliain gwyn drosti a llestri te a thebot arni.

Gwelir yr un lluniau ar y swfenirs mwy parhaol a ddarperid ar gyfer ymwelwyr. Maen nhw ar lestri te, ac ar y ffeirynt cyfarwydd *A Welsh Tea Party* a wnaethpwyd yn ei wahanol fersiynau yn yr hen ymerodraeth Almaenig yn chwarter olaf y 19 ganrif.

Yr unig ddyn a fentra i'r teparti oedd y gweinidog a anfarwolwyd yn *A Pastoral Visit by Rev John Jones*. Byddai hynny'n cadarnhau barn yr ymwelwyr ein bod yn genedl grefyddol.

Dymunai ambell gynhyrchydd newid oddi wrth yr hen deitlau fel *Welsh Spinning Party* a *Welsh Costume* ac ar garden sy'n dangos hen wraig yn ei rigins i gyd yn darllen y Beibl y mae'r teitl *At evening time there shall be light*.

* * *

DELWEDDAU pobl ddiarthr ohonom yw'r rhain, ar y cyfan. Ond parheid y ddelwedd gartref hefyd. Mae gennym ffotograff wedi'i dynnu yn stiwdio Ebeneseer Morgan, Pier St., Aberystwyth, ar droad y ganrif.

Ynddo mae dwy ferch a bachgen yn gwisgo'r wisg Gymreig yn ei gogoniant. Mae'r tri yn gwisgo het gopa eithriadol dal a chantel llydan. Mae'r merched yn gwisgo siol a ffedog, ac yn gweu sanau, ac mae'r bachgen yn gwisgo siaced drwsiadus a cholera ac mae ganddo farged fawr ar ei fraich. Mae aspidistra fawr o'u blaen yn cwblhau'r llun.

Mae'r dillad a'r gwau a'r fagedd yn rhan o brops y ffotograffydd a fyddai ar gael ar gyfer unrhyw un a ddymunai lun traddodiadol. Dyma hyrwyddo'r ddelwedd Gymreig fel y gwelai "artistic photography" hi ond mae un elfen newydd yn y llun gosod hwn, sef yr aspidistra.

* * *

MAE Laura Ashley yn eu catalog cyfredol *Home Decoration* wedi dewis ail wneud ffermdy yng nghanolbarth Cymru. Yn lle'r hen oel-cloth mae cynnyrch diweddarar cwmni. Du a gwyn yw'r lliwiau a ddewiswyd ganddi i harddu'r gegin. Ar y ford, mae rholbren a thoes ac offer cegin na welais mo'u tebyg erioed.

Yn eistedd yn y gadair ar ôl llafurio i wneud y toes, wedi'i gwisgo yn y wisg Gymreig yn ôl Laura Ashley, mae gwraig y tŷ. Mae yn ei du i gyd, yn sgert, siol a het dal a chapau ffrillog odani, a ffrils yn ymwithio drwy'r siol. Ar gefn y gadair mae brân wedi'i stwffio, ac yn y gornel mae sgubell. Mae'r tynnwr lluniau felly wedi arosod delwedd y wrach ar y wisg a'r llun. Dyma rywun arall yn rhoi haen arall ar y myth Cymreig.

Ddoe, prynais focs o daffis Cymreig am fod arno lun Delyth Evans, ffrind a chyd-weithiwr. Arno mae'n blentyn bochgoch yn gwisgo'i gwisg Gymreig ac yn cario twff o gennin Pedr. Bellach, y mae hi'n tynnu at ei deugain oed ac yn fam i ddau o blant ond yn ôl y llun y mae hi'n fythol naw mlwydd oed.

Tynnwyd y llun gan dynnwr lluniau dieithr a ddaeth i ysgol gynradd Solfach: mae'n dal ar werth ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach. "Ac ni newidiant, ac ni heneiddiant mwy."

ALAN CADWALADR-JONES

Rhwymwr Llyfrau

62 Seabank Drive, Prestatyn,
Clwyd. LL19 7SH

Ffôn: Prestatyn (07456) 4298

Gwaith llaw o safon uchel a gwasanaeth personol.

Defnyddir patrymau a defnyddiau traddodiadol.